**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Llyr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
[drwy e-bost]

24 Ionawr 2019

Annwyl Llyr

Yn dilyn eich llythyr at y Llywydd ar 16 Ionawr ynghylch eich gwelliant Cyfnod 2 arfaethedig i'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (y Bil), roeddwn i am roi rhybudd i chi ynghylch rhai gwelliannau arfaethedig ychwanegol yr hoffwn eu trafod â chi pan fyddwn ni'n cyfarfod wythnos nesaf.

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn llywodraethu swyddfa'r Ombwdsmon. O dan y Ddeddf honno, mae'n ofynnol i'r Cynulliad enwebu Ombwdsmon i'w benodi gan EM Y Frenhines. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn eglur wrth nodi mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am bennu cyflog a thelerau penodi eraill yr Ombwdsmon, ac nid yw'n cadarnhau'n benodol bod yn rhaid i'r Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer recriwtio Ombwdsmon.

Gellid dadlau, wrth gwrs, ei bod hi'n bosibl dod i'r casgliad bod rhwymedigaethau'r Cynulliad i drefnu recriwtio Ombwdsmon, ac i bennu'r cyflog a'r telerau, i'w cael o'r gofynion yn y Ddeddf. Fodd bynnag, mae cyfreithwyr y Comisiwn wedi fy nghynghori y byddai cynnwys darpariaeth benodol i'r perwyl hwn yn y Bil yn egluro graddau cyfrifoldebau'r Cynulliad yn y broses benodi. Y cyngor yw y dylai'r gwelliant arfaethedig roi pŵer penodol i'r Cynulliad ddirprwyo'r swyddogaeth hefyd. Mae dirprwyo yn ddefnyddiol at ddibenion effeithiolrwydd. Gan gymryd y bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil, byddai cynnwys y gwelliannau hyn hefyd yn cysoni trefniadau ar gyfer penodi'r Ombwdsmon â'r trefniadau ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
manon.antoniazzi@cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
manon.antoniazzi@assembly.wales
0300 200 6230

Deallaf y bydd yn rhy hwyr i gyflwyno'r gwelliannau hyn i'w hystyried ar gyfer Cyfnod 2, a dywedir wrthyf y gallai'r gwelliannau pellach yr wyf yn eu cynnig gael goblygiadau i rai gwelliannau yr ydych eisoes wedi'u cyflwyno, yn benodol rhifau 128 a 171. Mae'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad ynghylch adolygu darpariaethau'r Bil, ar ôl ei basio, a goruchwylio'r cyfyngiadau a osodir ar gyn-Ombwdsmyn o ran swyddi cyhoeddus penodol. Felly, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallwn drafod y materion hyn â chi yn ein cyfarfod ddydd Mawrth 29 Ionawr fel y gallwch eu hystyried yn llawn cyn i drafodion Cyfnod 2 ddod i ben, gyda'r bwriad o ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 3.

Yn gywir

Manon

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.